CYPE(5)-03-20 - Papur 4

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Nodyn o ymweliadau'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2019

Ar 28 Tachwedd 2019, ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â thri lleoliad sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Roedd y lleoliadau hyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Chaernarfon.

Roedd gan ddisgyblion gymysgedd o anghenion a galluoedd, rhai yn ymwneud ag iechyd meddwl (gan gynnwys hunan-niweidio sylweddol a syniadaeth hunanladdol ar brydiau) ac eraill ag ymddygiadau cymdeithasol, emosiynol a rheoleiddio.

Prif ddiben yr ymweliadau oedd galluogi trafodaethau wyneb yn wyneb â disgyblion, er mwyn dod i ddeall eu profiadau o dderbyn addysg y tu allan i'w hysgolion prif ffrwd. Siaradodd yr Aelodau hefyd â staff, rhieni a gofalwyr. Cynhaliodd y Pwyllgor yr ymweliadau ar ddechrau'r ymchwiliad i sicrhau bod profiadau uniongyrchol y rhai sy'n ymwneud ag EOTAS yn amlwg ym meddwl yr Aelodau wrth i'r Pwyllgor archwilio'r maes hwn yn fwy manwl.

Paratowyd y nodyn hwn gyda chaniatâd yr holl leoliadau yr ymwelwyd â hwy. Ei ddiben yw llywio sesiynau tystiolaeth lafar, ac adroddiad terfynol ac argymhellion y Pwyllgor. Er mwyn cynnal preifatrwydd y rhai y siaradodd yr Aelodau â hwy, nid yw'r sylwadau wedi'u priodoli i unigolion.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r holl blant, pobl ifanc, staff, rhieni a gofalwyr a alluogodd i'r ymweliadau hyn ddigwydd ac a roddodd o'u hamser i helpu'r Aelodau gyda'r gwaith hwn.

Cefnogaeth mewn ysgolion prif ffrwd

1. Nododd y mwyafrif o'r dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr mai **ychydig iawn, os o gwbl, o gefnogaeth oedd ar gael** yn eu hysgolion prif ffrwd i alluogi plant a phobl ifanc ag anawsterau i aros yno. Cafwyd y sylwadau a ganlyn:

> "Doedd dim strwythur cefnogaeth."
>
> "Roeddwn i allan o wersi 24/7. Doeddwn i ddim yn dysgu."
>
> "Doedd athrawon ddim yn talu sylw - wnes i ddim dysgu."
>
> "Roeddwn i'n cael fy ngwneud i deimlo'n ddrwg."
>
> "Roedd gen i ofn gofyn am help."
>
> "Mae angen i athrawon ddeall yn well sut i'n helpu ni."
>
> "Doedd yr athrawon ddim yn fy hoffi i felly fe wnaethant fy nghicio allan."
>
> "Maen nhw'n colli eu tymer mor gyflym [...] Maen nhw'n meddwl ein bod ni'n ceisio cael sylw. Ond rydyn ni eisiau i rywun wrando."
>
> "Ro'n i'n cael help ond yn hapus i ddod yma i osgoi cael bai ar gam."

2. Roedd y materion a nodwyd gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn ysgolion prif ffrwd yn cynnwys trallod a achoswyd gan y canlynol:

- meintiau dosbarth mwy;
- defnyddio dulliau ynysu;
- tynnu amserau egwyl/cinio a theithiau ysgol, cyngherddau a diwrnodau chwaraeon yn ôl;
- peidio â gwrando/deall eu hanghenion;
- ychydig neu ddim cysylltiad yn cael ei feithrin rhwng disgyblion ac athrawon;
- newid ymagwedd yn aml yn yr ysgol tuag at anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD) ac iechyd meddwl;

- cael eu labelu a'u stigmateiddio, gan arwain at ddirywiad pellach mewn ymddygiad; a
- gorfod symud darpariaeth/ysgolion prif ffrwd, gan fynd "ar goll" yn y system.

3. Cyfeiriodd y nifer fach o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr a nododd eu bod wedi derbyn rhywfaint o gefnogaeth yn eu hysgol brif ffrwd at y canlynol fel adnoddau pwysig:

- **cardiau amser allan** - i'w dangos i gael caniatâd i adael yr ystafell ddosbarth pan oeddent yn teimlo'r angen;
- "**tai dysgu**"/"**parthau adferol**"- i ymweld â hwy pan nad oeddent yn gallu aros yn eu dosbarth prif ffrwd;
- **amserlenni llai** - cynyddu hydrinedd yr amser a dreulir yn amgylchedd ffurfiol yr ysgol.

4. Fodd bynnag, eglurodd y dysgwyr fod **nifer o heriau mewn perthynas â'r adnoddau hyn**. Roedd y rhain yn cynnwys bod yn rhy ofnus ar adegau i ddangos eu cerdyn amser allan, teimlo'n "ddrwg" neu'n ynysig pan oeddent yn gadael eu dosbarthiadau prif ffrwd i fynd i dai dysgu/parthau adferol, a theimlo nad oeddent yn dysgu'n arbennig o dda er bod y mecanweithiau hyn ar waith. Cyfeiriodd mwyafrif y rhai a wnaeth sylwadau cadarnhaol am eu hysgolion prif ffrwd at **bwysigrwydd staff penodol** a oedd wedi gwrando arnynt, wedi deall eu problemau, ac wedi darparu cefnogaeth wedi'i theilwra.

5. Gofynnwyd **beth allai fod wedi bod yn well** yn eu profiad, ac awgrymodd y dysgwyr a rhai o'r rhieni/gofalwyr y canlynol:

- dylai athrawon fod **wedi'u hyfforddi'n well** i wella eu dealltwriaeth o anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, anghenion niwroddatblygiadol ac iechyd meddwl, a'u galluogi i allu ymdrin â theimladau cadarnhaol/negyddol yn well. Teimlai'r dysgwyr fod eu heriau'n cael eu cam-labelu'n rheolaidd fel achosion o gamymddwyn. Teimlai'r rhieni/gofalwyr y byddai hwn yn fuddsoddiad da o ystyried cyffredinrwydd cynyddol salwch meddwl a hunanladdiad wrth newid i fod yn oedolion;
- dylid rhoi **mwy o rybudd** / dylid cymryd camau cyn i ddysgwr gael ei "gicio allan" o ddosbarth;

- dylai staff yr ysgol **gymryd mwy o amser i ddeall anghenion dysgwyr** - mae angen amynedd a dealltwriaeth i'w helpu i oresgyn y materion sy'n eu hwynebu;
- **dull mwy cymesur o wahardd**- roedd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwahardd oherwydd nifer o ddigwyddiadau bach a oedd yn cronni yn hytrach na materion difrifol a oedd yn gwarantu gweithredu yn y fath ffordd; a
- mwy o **gydraddoldeb rhwng y pwysigrwydd a roddir ar les a chyrhaeddiad** - roedd rhai o'r rhieni/gofalwyr yn ofni nad oedd ysgolion yn ymgysylltu rhag ofn niweidio mesurau perfformiad, yn enwedig canlyniadau arholiadau.

Opsiynau amgen i brif ffrwd a lefel y dewis

6. Soniwyd am brofiadau cymysg mewn perthynas â'r **opsiynau a'r dewisiadau sydd ar gael y tu hwnt i ysgol brif ffrwd**.

7. Teimlai'r dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod ganddynt opsiynau amgen yn agos at eu cartrefi. Yn ogystal â'r uned ei hun, roeddent yn ymwybodol o'r opsiynau ar gyfer addysg gartref. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith eu bod yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth mewn colegau addysg bellach yn ystod blynyddoedd 10 ac 11, ar y cyd â'u presenoldeb yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Roeddent yn teimlo bod y rhain yn ddefnyddiol iawn i'w galluogi i ystyried a pharatoi ar gyfer eu hopsiynau addysg ôl-16. Mewn cyferbyniad, nododd dysgwyr yng Nghaerdydd mai dim ond un opsiwn a gyflwynwyd iddynt, yn hytrach nag ystod.

8. Nododd mwyafrif y dysgwyr ar draws y tri lleoliad eu bod yn teimlo'n **nerfus cyn mynd i mewn i EOTAS** ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl gadael darpariaeth brif ffrwd. Ymhlith y pryderon roedd:

- colli ffrindiau;
- colli allan ar ddysgu;
- y stigma o fod yn EOTAS, gan gynnwys cael eich ystyried yn "ddrwg"; a
- chael trafferth dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd.

9. Teimlai rhai o'r rhieni/gofalwyr fod **diffyg gwybodaeth** am yr opsiynau amgen sydd ar gael iddynt hwy a'u plant. Roeddent yn teimlo bod hyn yn effeithio ar eu

gallu i wneud dewis gwybodus, ac mewn un achos yn gohirio eu penderfyniad i symud eu plentyn o'r ysgol brif ffrwd rhag ofn iddynt gyfyngu ar eu rhagolygon a'u cyrhaeddiad yn y dyfodol.

10. Er bod nifer yn canmol staff yr ysgol brif ffrwd ac awdurdodau lleol, gwnaethant sylwadau ei bod wedi bod yn "frwydr hir" i ddod o hyd i'r bobl iawn. Teimlai rhai hefyd y gallai sicrhau EOTAS ddibynnu ar **lefel y gefnogaeth/gwybodaeth sydd gan rieni**, a **pha mor agos ydynt at dref/dinas** sydd â phoblogaeth ddigonol o ran maint i gynnal darpariaeth o'r fath.

Amser i sicrhau darpariaeth amgen

11. Nodwyd **profiadau cymysg** mewn perthynas â'r amser a gymerodd i sicrhau darpariaeth heblaw yn yr ysgol, a natur y gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod interim. Roedd yr amseroedd aros a nodwyd yn amrywio o ychydig iawn i 16-18 mis.

12. Yn achos oedi, roedd cefnogaeth dros dro yn amrywio o "rywfaint o addysg gartref" (i'r unigolyn a oedd yn aros 16-18 mis) i "ddim byd" (i'r unigolyn arall a oedd yn aros 6-7 mis). Mewn cyferbyniad, nododd dysgwr arall fwlch llawer byrrach o 2-3 mis yn ei haddysg, pan ddarparwyd ystod o gefnogaeth, gweithgareddau ac amser gyda gweithwyr ieuenctid. Roedd consensws ymhlith y rhai a wnaeth sylwadau am yr amser y mae'n ei gymryd i sicrhau dewis arall bod unrhyw fwlch yn ddi-fudd ac y gallai effeithio ar iechyd meddwl, lles a chyrhaeddiad.

13. Dywedodd rhai o'r rhieni/gofalwyr fod eu plentyn yn aros mewn ysgol brif ffrwd heb y lefel angenrheidiol o gefnogaeth **wedi effeithio ar yr uned deuluol ehangach**. Gwnaethant nodi bod brodyr a chwiorydd eraill yn cael eu heffeithio ac mewn perygl o adlewyrchu ymddygiad. Fe wnaethant hefyd egluro bod eu swyddi eu hunain yn cael eu heffeithio oherwydd y nifer o weithiau y bu'n rhaid iddynt adael y gwaith i gasglu eu plant yn gynnar yn dilyn cais gan yr ysgol.

Cefnogaeth yn narpariaeth EOTAS

14. Nododd mwyafrif y dysgwyr ar draws y tri lleoliad eu bod yn teimlo eu bod wedi cael **cefnogaeth dda iawn ar ôl iddynt ymuno â'u darpariaeth EOTAS.** Ychwanegodd llawer fod eu profiad wedi gwneud **gwahaniaeth sylweddol a chadarnhaol i'w haddysg**.

Manteision EOTAS

15. Y prif agweddau y pwysleisiodd y dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr eu bod yn well yn EOTAS oedd:

- **staff addysgu a staff cymorth** yn cymryd yr amser i wrando arnynt a bod yn fwy profiadol wrth ymdrin â'u hanghenion a'u deall;

  "Nid oes gan y staff dymer fer yma."

  "Mae dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng y disgyblion a'r staff. Rydyn ni'n ffitio i mewn yma."

  "Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant mewn iechyd meddwl."

  "Rydyn ni i gyd yn dod ymlaen yma. Rydyn ni fel teulu."

- nifer llai o ddysgwyr, yn enwedig o ran **maint bach dosbarthiadau**, gan olygu eu bod yn cael y sylw yr oedd ei angen arnynt, nad oeddent mor bryderus i ofyn am help, ac nad oeddent yn teimlo bod yr ystafell yn orlawn oherwydd eraill;

  "Gall staff ddod i adnabod plant lawer mwy oherwydd ei bod yn llai nag ysgol brif ffrwd."

  "Nid yw mor swnllyd â fy ysgol arall."

- **hyblygrwydd a natur y gefnogaeth** yn fwy ffafriol i ddysgu;

  "Maen nhw'n egluro pethau yma."

  "Mae'n haws gofyn am help."

  "Mae'n helpu i gael profiadau a rennir. Fe allwn ni fod yn onest yma."

- y **cyflymder dysgu** yn llawer mwy wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol;

  "Nid yw athrawon yn ein rhuthro ni yma."

  "Mae'r brif ffrwd yn canolbwyntio ar raddau."

- **rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan ac yn wybodus** am addysg eu plentyn.

  "Fe alla i ofyn am sgwrs ar unrhyw adeg... mae'r cyfathrebu'n rhagorol."

16. Nodwyd bod y gefnogaeth a gawsant yn **yr uned wedi gwella eu dysgu**. Cafwyd y sylwadau a ganlyn:

> "Mae wedi gwella fy nysgu oherwydd fy mod i'n dod i'r ysgol nawr. Roeddwn i'n arfer cael wythnosau i ffwrdd yn fy ysgol arall."
>
> "Rwy'n gwneud mwy o waith yma."
>
> "Rwy'n ôl i ddiwrnod llawn o ddysgu yma, yn hytrach nag amserlen lai."
>
> "Mae'n fwy hamddenol yma felly rydw i'n ymgysylltu mwy."
>
> "Nid oes gen i ofn gofyn am help mwyach. Rwy'n siarad mwy ac rwy'n llai pryderus."
>
> "Mae fy hyder wedi cynyddu."
>
> "Rwy'n fwy hyderus ac yn fwy annibynnol."
>
> "Mae fy ymddygiad wedi gwella."
>
> "Mae hi wedi ffynnu yma."
>
> "Dwi heb orfod ei gasglu'n gynnar unwaith yma."
>
> "Dwi'n canolbwyntio ac yn gwrando'n fwy ar yr athrawon."
>
> "Dwi'n llai hyper a dwi ddim yn codi ffrae na chwffio cymaint."

Amrywiaeth o bynciau a chefnogaeth

17. Roedd ystod y pynciau a oedd ar gael i ddysgwyr yn amrywio o un lleoliad i'r llall, ond roedd y tri ohonynt yn darparu **pynciau craidd** (Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys cymwysterau TGAU lle bo hynny'n briodol). Mewn rhai achosion, darparwyd pynciau craidd drwy dasgau mwy ymarferol (er enghraifft mathemateg yn cael ei gynnwys mewn sesiynau coginio drwy bwyso cynhwysion), a **llawer mwy o bwyslais ar anogaeth, ymddygiadau ac emosiynau** nag ar y cwricwlwm ffurfiol.

18. Cyfeiriodd rhai o'r disgyblion/rheini at **gwricwlwm mwy cyfyngedig** fel pryder a oedd wedi'u hatal i ddechrau rhag bod eisiau mynd i ddarpariaeth EOTAS (ac yn ffactor a fyddai'n eu denu yn ôl i'w hysgol brif ffrwd). Serch hynny, roedd rhai pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn teimlo bod y gefnogaeth a ddarperir yn EOTAS yn eu

galluogi i fod **yn fwy tebygol o lwyddo i ddysgu a/neu ennill cymwysterau**, hyd yn oed os yw'n fwy cyfyngedig o ran cwmpas neu nifer. Fodd bynnag, dywedodd un disgybl ei fod yn poeni am ddychwelyd i'r ddarpariaeth brif ffrwd ac angen "dal i fyny" gyda gwaith:

> "Be' sy'n weindio fi fyny yw dal fyny efo gwaith ysgol."

19. Rhoddwyd llawer o bwyslais yn y tri lleoliad ar:

- **les, gwytnwch, ac anogaeth** y disgyblion;
- **sgiliau bywyd ac addysg sy'n gysylltiedig â'r gwaith** i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agos at oedran gadael yr ysgol;
- **cysylltiadau da gyda gwasanaethau eraill** megis cefnogaeth gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ac anghenion dysgu ychwanegol i'r rheini sydd ag anghenion penodol - disgrifiodd un rhiant ddarpariaeth EOTAS fel

  > "...Angor popeth."

- **cysylltiadau da â rhieni/gofalwyr** i sicrhau eu bod yn cymryd rhan lle bo hynny'n bosibl/briodol ac yn gallu dysgu mwy am anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Rhoddwyd argaeledd Swyddog Ymgysylltu â'r Teulu ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gefnogi rhieni/gofalwyr fel enghraifft o arfer da yn hyn o beth;
- y **cyfleusterau** sydd ar gael, gan gynnwys nodweddion fel ardaloedd hamddena gyda bagiau ffa/ardaloedd tawel, ceginau i ddysgwyr, y llyfrgell a chyfleusterau chwaraeon a oedd yn galluogi eu datblygiad ehangach; a
- **darparu amser gwarchodedig** ar ddechrau a diwedd pob diwrnod i ddathlu llwyddiannau, neu i siarad am unrhyw beth a oedd wedi digwydd neu a oedd yn peri pryder i'r plant a'r bobl ifanc, er mwyn sicrhau nad oedd pryderon neu broblemau'n mynd yn waeth.

20. Pwysleisiodd llawer o'r disgyblion a'u rhieni/gofalwyr **werth y gefnogaeth ehangach hon**, gan egluro nad oedd ar gael yn eu hysgolion prif ffrwd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd "ymyriadau sgiliau a lles" gorfodol fel coginio ac ymwybyddiaeth ofalgar, "sesiynau cyfoethogi" a oedd yn cynnwys teithiau cerdded yn y goedwig a chwaraeon, a gwaith gwirfoddol yn y gymuned a oedd yn helpu i ddatblygu eu sgiliau pobl. Teimlwyd bod yr holl agweddau hyn **wedi helpu i**

bontio bwlch pwysig rhwng darpariaeth EOTAS a lleoliadau dysgu/gwaith yn y dyfodol.

Amser yn rhan o EOTAS

21. Nod y tri lleoliad oedd sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn **gallu dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd**.

22. Yng Nghaernarfon, mynychodd disgyblion o nifer o ysgolion prif ffrwd cynradd ac uwchradd lleol am gyfnod dros dro o chwe wythnos, i ganolbwyntio ar les ac anghenion cymdeithasol/emosiynol. Gan eu bod wedi cael amser i ffwrdd o'r cwricwlwm i raddau helaeth i ganolbwyntio ar anogaeth ac ymddygiad, mae ail-integreiddio i'r ysgol brif ffrwd yn cael ei wneud yn araf, gan ymweld â'r ysgol flaenorol gyda staff EOTAS i ddechrau.

23. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er y gallai dysgwyr ym mlwyddyn 10 ac 11 fod yn rhan o EOTAS yn barhaol, amser llawn, rhoddwyd grwpiau oedran iau ar **raglen "drws troi"** yn gyntaf. Er bod y rhieni/gofalwyr yn cydnabod mai nod y dull hwn oedd gweithredu fel ymyrraeth gynnar, **nid oeddent yn hyderus y byddai'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn ysgolion prif ffrwd** i baratoi ar gyfer dychweliad eu plentyn. Roeddent yn cwestiynu pa mor effeithiol y gallai rhaglenni fod pe na bai staff, yn ogystal â dysgwyr, yn newid eu hymddygiad a'u dulliau.

24. Yng Nghaerdydd, er bod pob dysgwr wedi nodi ei fod yn mwynhau ei ddarpariaeth EOTAS, roeddent **yn unfrydol yn eu hawydd i ddychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd**. Roedd eu rhesymau'n amrywio, gyda rhai yn colli eu ffrindiau ac eraill yn credu y byddent yn cyflawni mwy o TGAU gan eu rhoi mewn gwell sefyllfa yn ddiweddarach mewn bywyd.

25. Roedd barn **y gallai cychwyn o'r newydd mewn ysgol newydd, yn hytrach na dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd flaenorol, fod yn well yn aml**. Roedd hyn yn seiliedig ar y ffaith bod gan lawer o ddysgwyr enw drwg yn eu hysgolion blaenorol a oedd yn ei gwneud yn anodd iawn cychwyn o lechen lân. Eglurodd staff a rhieni/gofalwyr er nad oedd ymddygiad rhai dysgwyr yn or-broblemus, erbyn iddynt adael EOATS, gallai dychwelyd i'w hen ysgol brif ffrwd weithiau arwain at ymddygiadau heriol yn dychwelyd.

Trafnidiaeth

26. Roedd y trefniadau ar gyfer trafnidiaeth yn amrywio ar draws lleoliadau, ond roeddent yn cynnwys **tacsis a bysiau** wedi'u hariannu gan awdurdodau lleol, a chefnogaeth gan rieni/gofalwyr. Roedd dysgwyr yng Nghaernarfon a Phen-y-bont ar Ogwr yn canmol eu gyrwyr a'u hebryngwyr, gan egluro eu bod yn aml yn codi eu hwyliau yn y bore pan roeddent yn cyrraedd i fynd â hwy i'r ysgol.

27. Soniodd rhai o’r dysgwyr yng Nghaerdydd am daith mewn car o 30-40 munud bob ffordd, ond ni fynegwyd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch cludiant i/o unrhyw un o'r lleoliadau. Nododd rhai o’r rhieni/gofalwyr eu bod wedi bod yn poeni am drafnidiaeth i ddechrau, ond nid oedd unrhyw broblemau wedi dod i'r amlwg mewn gwirionedd.